GWOBR EFYDD

# Y CWPANAID PERFFAITH O DE

10H Yn gyffredinol, 10+ o waith prosiect.
Yn addas i bobl ifanc 11 i 14 oed



Dylunio a gwneud project

Ymchwiliwch i amrywiaeth o ddulliau ar gyfer gwneud te a lluniwch arbrawf i greu'r cwpanaid perffaith o de i chi'ch hun.

#bwyd

#cemeg

#peirianneg



# SUT I GYNNAL CREST GAN DDEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Ydych chi'n chwilio am gymorth? Gallwch ddod o hyd i Fentor drwy gysylltu â'ch hyb Llysgenhadon STEM lleol: https://www.stem.org.uk/stem-ambassadors/local-stem-ambassador-hubs

## I ddefnyddio eu prosiect i gyflawni Gwobr Efydd CREST, bydd yn rhaid i'ch myfyriwr:

- Gwblhau o leiaf 10 awr o waith prosiect
- Ystyried effaith ehangach ei brosiect a dangos
- Cwblhau llyfr gwaith y prosiect neu adroddiad byr ar ffurf arall
- Adfyfyrio ar ei waith yn ystod y prosiect gan ddefnyddio ffurflen proffil myfyriwr

### Paratoi

Ydych chi'n barod i gychwyn arni gyda CREST? Cofrestrwch am gyfrif CREST yma: **www.crestawards.org/sign-in**

Creu prosiect Gwobr Efydd newydd gydag enw(au) y myfyriwr/wyr a theitl y prosiect. Os nad oes gennych yr holl fanylion, gallwch lenwi'r rhain yn hwyrach!

### Cwblhau'r prosiect

Mae gennym lyfrau gwaith hynod ddefnyddiol a phroffiliau i'ch myfyrwyr eu defnyddio wrth gwblhau gwaith am wobr CREST. Gallwch eu lawrlwytho pan fyddwch yn creu eich cyfrif CREST drwy ddilyn y ddolen uchod.

Anogwch i'ch myfyrwyr ddefnyddio'r llyfr gwaith neu broffil i gynllunio a gwneud eu prosiect, gan gadw cofnod o'u holl gynnydd gwych.

Sicrhewch eich bod chi'n ystyried diogelwch a risgiau!

### Adfyfyrio

Felly, mae'ch myfyrwyr wedi bod yn gweithio'n galed ac wedi cwblhau eu prosiect CREST, ond nid dyma'r diwedd ar eu dysgu Nawr, dylen nhw lenwi unrhyw rannau sy'n weddill yn eu lyfr gwaith. Dyma gyfle iddynt adfyfyrio ar yr holl bethau diddorol maent wedi'u dysgu a'r sgiliau hynod werthfawr maent wedi'u defnyddio.

### Cofrestrwch eich prosiect chi am Wobr Efydd CREST

Mae gwaith caled yn haeddu gwobr! Dathlwch ac ardystiwch yr hyn mae'ch myfyriwr wedi'i gyflawni drwy gofrestru eu prosiect am Wobr Efydd CREST. Yn syml iawn:

Mewngofnodwch i'ch cyfrif CREST yn **www.crestawards.org/sign-in** Dewiswch y prosiect a lanlwythwch sampl o lyfrau gwaith y myfyriwr neu dystiolaeth arall o'r prosiect.

Gwiriwch fod y myfyrwyr sy'n cymryd rhan wedi bodloni'r meini prawf ar y dudalen asesiad athrawon.

Yn olaf, cwblhewch y manylion anfon a thalu i archebu eich tystysgrifau crand.

Llongyfarchiadau am gwblhau Gwobr Efydd CREST!

### Beth nesaf?

Does dim rhaid i'r darganfod Gwyddonol ddod i ben yma. Gall myfyrwyr roi cynnig ar y lefel nesaf - CREST Arian.

Rhannwch yr hwyl drwy annog eraill i gymryd rhan mewn prosiectau CREST a rhannu rhyfeddod gwyddoniaeth. Am syniadau am ddim ar sut i gychwyn arni, gweler **www.crestawards.org**

# BRÎFF MYFYRWYR

GWOBR EFYDD

## Y cwpanaid perffaith o de

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn gwybod sut i wneud cwpanaid o de. Ond nid yw pawb yn gwneud te yn yr un ffordd. Yn y prosiect hwn, gallwch gynnal arbrofion i weithio allan sut i wneud y cwpanaid perffaith o de i chi. Yna, byddwch yn llunio gweithdrefn safonol (sef set o gyfarwyddiadau manwl iawn) fel y gall pobl eraill wneud te'n union fel rydych chi'n ei hoffi.



### Dechrau arni

Paratoi arbrofion: bydd unrhyw ganlyniadau'n dibynnu ar eich chwaeth personol chi.

Ond gallwch gynnal profion teg i benderfynu sut mae'n well gennych chi gael eich te. Mae'r holl bethau sy'n cael eu crybwyll uchod yn newidion. Os ydych chi'n eu cadw i gyd yn gyson, ond yn newid un, gallwch weithio allan yr hyn sy'n well gennych chi.

Er enghraifft, gwnewch dri chwpanaid o de gyda'r holl bethau hyn gwmws yr un peth:

Cyfaint y dŵr a ddefnyddir.

Y math a chyfaint y llaeth, ac a ydych chi'n rhoi'r llaeth i mewn cyn neu ar ôl y dŵr. Yr un nifer a math o fag o de a hyd yr amser rydych chi'n ei adael yn y cwpan. Defnyddiwch dri thymheredd gwahanol o ddŵr (er enghraifft, un cwpan gyda 50 oC, un gyda 75 oC ac un gyda 100 oC).

Drwy flasu pob cwpan, gallwch benderfynu pa dymheredd o ddŵr i'w ddefnyddio ar gyfer eich cwpanaid perffaith o de. Cynhaliwch lawer mwy o arbrofion, ond cadwch y newidion gwahanol yn gyson, gan newid rhai eraill.

Ar ôl pob arbrawf, dylech nodi yr hyn oedd yn well gennych.

Cyfarwyddiadau ar sut i wnaed y cwpanaid perffaith: nawr eich bod chi wedi penderfynu ar eich newidion personol chi, gallwch lunio weithdrefn safonol. Dyma set o gyfarwyddiadau manwl iawn (ychydig fel rysáit) er mwyn i bobl allu gwneud te'n union fel rydych chi'n ei hoffi.

### Pethau i'w hystyried

Faint o ddŵr dylech chi ei ddefnyddio a pha mor boeth y dylai fod?

Faint o de dylech chi ei ddefnyddio?

A fyddwch chi'n defnyddio bagiau o de, neu de rhydd?

Faint o laeth byddwch chi'n ei ddefnyddio, ac a fyddwch chi'n rhoi'r llaeth i mewn cyn neu ar ôl y dŵr?

Pa fath o laeth byddwch chi'n ei ddefnyddio: braster llawn, hanner sgim neu sgim?

Am ba hyd y dylid gadael y bag o de (neu ddail y te) yn y cwpan?

Ydych chi am siwgr? Faint?

### Adnoddau defnyddiol

Ewch i archfarchnad lleol i ddod o hyd i amrywiaeth o fathau o de.

Rhowch gynnig ar ddefnyddio dŵr potel neu ddŵr tap i weld os oes gwahaniaeth.

# BRÎFF MYFYRWYR

## GWOBR EFYDD



### Iechyd a Diogelwch

Mae gwaith prosiect gwyddonol yn ddeinamig ac yn gyffrous, ond gall hefyd peri ambell risg. I osgoi damweiniau, sicrhewch eich bod chi'n glynu wrth y canllawiau iechyd a diogelwch canlynol cyn dechrau arni:

- sicrhewch eich bod yn gwybod os yw'r deunyddiau neu'r dulliau'n beryglus.
- rhaid asesu'r risgiau (meddyliwch am yr hyn a allai fynd o'i chwith a pha mor ddifrifol y gallai fod);
- penderfynwch yr hyn mae angen i chi ei wneud er mwyn lleihau'r risg (megis gwisgo cyfarpar amddiffynnol personol, gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng ac yn y blaen);
- sicrhewch fod eich athro'n cytuno â'ch cynllun a'ch asesiad ris

Dylech chi byth cynnal arbrofion blasu mewn labordy neu'n defnyddio offer labordy. Defnyddiwch ystafell technoleg fwyd yn lle.

### Cofiwch!

Nid data'n unig yw gwyddoniaeth Bydd y prosiectau mwyaf llwyddiannus yn dangos sgiliau cyfathrebu da a syniadau gwreiddiol sy'n mynd i'r afael â phroblemau'r byd go iawn.

Edrychwch ar y byd o'ch cwmpas ac ystyried yr holl ffyrdd arloesol y gallech chi fynd i'r afael â'r her. Hyd yn oed os bydd pethau'n mynd o chwith, defnyddiwch hyn i ddangos yr hyn rydych chi wedi'i ddysgu. Cofiwch ddefnyddio'r ffurflen proffil myfyriwr i helpu i roi strwythur i'ch prosiect.